CYNGOR BRO LLANFAIRPWLL

CYFARFOD

Dydd Mawrth 25 Mawrth 2014
7.00yh yn y Neuadd Goffa

1. Ymddiheuriadau

2. Datganiadau Diddordeb

3. Materion y Cyngor Sir

4. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 25 Chwefror 2014

5. Materion yn codi o'r cofnodion

6. Cofnodion Pwyllgor Arbennig Parthed yr Ysgol Feithrin 12 Mawrth 2014

7. Materion yn codi

8. Ceisiadau Cynllunio
8.1 31C411 Coed Mor – Creu 2 trac beicio mynydd
8.2 31C14V/1 34 Cil y Graig – Addasu ac Ehangu

9. Cyfrifon mis Mawrth 2014

10. Gohebiaeth
10.1 CSYM – Penderfyniadau Cynllunio
10.2 Land Registry
10.3 Clerks & Councils Direct

11. Unrhyw Fater Arall

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 29 Ebrill am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 25ain Chwefror 2014

Presennol: A. Mummery, A. Jones, J. Roberts, Mervyn Jones, Dennis Williams, Meirion Jones, G. Parry, A. Thomas, H. Huws.
1. Ymddiheuriadau: B. Jones, G. C. Jones, A. Williams, P. Roberts, E. Parry.

2. Datganiadau Diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb

3. Materion y Cyngor Sir
3.1 Adroddwyd fod y Cyngor Sir wedi cytuno i godiad o 4.5% ar y Dreth Cyngor
3.2 Adolygu trefniadau addysg i blant 3 oed. Ar hyn o bryd nid yw'n edrych fel bo'r cynlluniau yn effeithio ar Ysgol Feithrin Llanfairpwll.
3.3 Hawliau Maenorol - Yr Arglwydd Treffos wedi tynnu'n ô lei gais am hawliau maenorol ar gartrefi'r ardal.

4. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion 28ain Ionawr 2014
Diolchwyd i A. Mummery am gofnodi'r cyfarfod yn absenoldeb y Clerc.
Cynigwyd gan J. Roberts ac eiliwyd gan D. Williams. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion
5.1 Ymgyrch i atal galwadau heb wahoddiad - ymgynghoriad wedi cymryd lle gyda thrigolion Llanfairpwll.
5.2 Llinellau melyn crossing Terrace - Ysgrifennu at Elfed Lewis am ddiweddariad ar y sefyllfa.
5.3 Safle We - A, Jones a'r Clerc i drafod.
5.4 Drws y Pafiliwn - Y Clerc i holi Huw Thomas am y pris gwreiddiol a dderbyniwyd. Penderfyniad i'w wneud yn y cyfarfod nesaf.
5.5 Cynllun Adfywio Pentrefol - y gwaith bron wedi'i gwblhau, dim ond disgwyl am yr arwyddion gael eu gosod.
5.6 Un Llais Cymru - adroddodd J. Roberts ei fod yn fodlon mynychu cyfarfodydd Un Llais Cymru os nad yw H. Huws neu G. C. Jones ar gael.
5.7 Tir gwlyb o amgylch y bin yn y Gors - C. Roberts yn gweithredu.
5.8 Llwybr Lôn Dyfnia - 3 planc wedi torri ar y llwybr. Y Cyngor Sir yn gweithredu.

6. Cofnodion Pwyllgor Y Fynwent 11eg Chwefror 2014
Cynigwyd gan G. Parry. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi o'r cofnodion
7.1 Cyflwr y safle - Nodwyd bod C. Roberts wedi cychwyn ar y gwaith o dacluso'r safle.
Cennin Pedr wedi'u plannu a'r bin compostio wedi'i wagio.

8. Cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa 11eg Chwefror 2014
Nodwyd bod y cyfarfod wedi'i gadeirio gan G. C. Jones yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd.
Cynigwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

9. Materion yn codi o'r cofnodion
9.1 Adroddwyd bod cwmni VAT Capital wedi'i gomisiynu i ymchwilio ac adrodd ar oblygiadau TAW yn ymwneud ag adeiladu Neuadd newydd.
9.2 Nodwyd bod rhodd di enw wedi'i dderbyn am y swm o £100. Gwerthfawrogir y rhodd gan y Pwyllgor.
9.3 Diolchwyd i A. Mummery, Meirion Jones a Rhun ap Iorwerth am eu hymdrechion yn ymwneud a'r hawliau maenorol. Y Clerc wedi derbyn cadarnhad bod y cais gan yr Arglwydd Treffos am hawliau maenorol ar y Neuadd Goffa wedi'i ddileu.
9.4 Y Clerc i gysylltu â'r trydanwr Now Parry i drefnu arolygiad trydanol yn y Neuadd Goffa

10. Ceisiadau Cynllunio

10.1 31C415 9 Glan Llyn - cais i newid annedd i feithrinfa plant. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag addasrwydd yr adeilad a'i leoliad ar gyfer meithrinfa. Cytunwyd i'r sylwadau fel a ganlyn:

1. Pryder ynglŷn â cheir yn troi a pharcio ar y safle.
2. Y safle ddim yn ddelfrydol ar gyfer busnes.
3. Pryderon trigolion Glan Llyn.

11. Cyfrifon mis Chwefror 2014

Cyflwynwyd taenlen a rhestr taliadau mis Chwefror 2014.
Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.

12. Gohebiaeth

12.1 Adroddiad ar ymgynghoriad Pont Britannia - H. Huws i adrodd arno yn y cyfarfod nesaf.
12.2 Ymgyrch Blodeuo'r Dyfodol - cytunwyd i blannu pabïau yn y llecyn tir ym maes parcio'r Gors. Mrs Barbara Kelly, Minffrwd wedi cyfrannu paced o hadau tuag at yr ymgyrch.
12.3 Hysbyseb o gyfarfod blynyddol y Clwb Bowlio 27 Chwefror 2014, er gwybodaeth.
12.4 CSYM - Hyfforddiant Cod Ymddygiad - Meirion Jones i arwain.
12.5 Ymgynghori Cyhoeddus Adeilad Niwclear newydd yn Wylfa - gofynnwyd a bydd y cynllun yn mynd yn ei flaen heb benderfyniad ynglŷn â beth fydd yn digwydd i'r wast niwclear yn y dyfodol. Y Cynghorwyr sirol i wneud ymholiadau ynglŷn â hyn. Hefyd gofyn pwy fynychodd y cyfarfod a gynhaliwyd trwy wahoddiad yn unig.
12.6 Pwyllgor Carnifal - derbyniwyd llythyr yn mynegi pryder am gynlluniau ar gyfer datblygu maes chwarae'r Gors a'r posibilrwydd na fydd lle yno i gynnal carnifal a digwyddiadau tebyg. Adroddwyd bod y Cyngor Bro yn gweithio trwy gysylltiad gyda'r mudiadau lleol a bydd ymgynghoriad cyn unrhyw ddatblygiad newydd,

13. Unrhyw Fater Arall

13.1 Bagiau baw ci ar draws y Gors - y warden cwn wedi bod yno ac am gadw golwg ar y sefyllfa.
13.2 Coed tu cefn i'r feddygfa - nodwyd bod rhai o'r coed wedi torri ond nid cyfrifoldeb y Cyngor Bro yw hwn. Y Clerc i ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd i ofyn a yw'n wir eu bod yn bwriadu creu maes parcio newydd ar y safle.
13.3 Nodwyd y bu ymdrech i dorri mewn i dy yn Lôn Hedydd yn ddiweddar.
13.4 Gwahoddiad i gyfarfod ynglŷn â moderneiddio ysgolion, 10fed o Fawrth yn siambr y Cyngor Sir.
13.5 Materion Un Llais Cymru -
13.5.1 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - gofyn am faterion i'w rhoi ar yr agenda
13.5.2 Cais gan L. Evans am gefnogaeth i gadw fynd am 5 mlynedd arall. Cefnogwyd y cais.
13.5.3 Cyfarfod Blynyddol Cynghrair Cymunedau Cymru, Dydd Sadwrn 1af Mawrth yn Oriel Ynys Môn.
13.5.4 Derbyniwyd adroddiad ar gyfarfod Pwyllgor Lleol Un Llais Cymru 29ain Ionawr 2014.
13.5.5 Uno Gwynedd a Môn - dim digon o wybodaeth i roi barn ar hyn o bryd.

Dyddiad cyfarfod nesaf - Nos Fawrth 25ain Mawrth 2014 am 7.00 yn y Neuadd Goffa.

Arwyddwyd ..... (Cadeirydd) .....Dyddiad